# Adroddiad Blynyddol Y Monitor Annibynnol 2019

Independent Monitor

## Cyflwyniad

Dyma seithfed Adroddiad Blynyddol y Monitor Annibynnol (IM) ar gyfer y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae'r adroddiad yn cwmpasu 2019, Ionawr i fis Rhagfyr.



Yn Adroddiad Blynyddol 2018 nid oedd unrhyw argymhellion am newid. Ysgrifennodd y Gweinidog Diogelu ataf ar 24ain Medi 2019 gyda'i hymateb i'm Adroddiad Blynyddol 2018.Cyhoeddwyd llythyr y Gweinidog gydag Adroddiad Blynyddol 2018 y llynedd.Rwy'n gwneud un argymhelliad newydd yn yr Adroddiad Blynyddol hwn ac rwyf wedi darparu diweddariad ar yr holl argymhellion blaenorol.

### Trosolwg o'r flwyddyn

#### Atyfeiriadau

Yn 2019, roedd cyfanswm o 4,755 o ddatgeliadau gwybodaeth ychwanegol a wnaed ar Dystysgrifau Cofnodion Troseddol Manylach gan y DBS ac Access Northern Ireland (ANI) gyda'i gilydd. Gwnaed cyfanswm o 139 o atgyfeiriadau datgelu a oedd yn destun dadl yn 2019 i'r Monitor Annibynnol. Mae hyn yn golygu bod 2.9% o'r holl ddatgeliadau a wnaed o fewn y flwyddyn yn Lloegr a Gogledd Iwerddon wedi bod yn destun dadl ac wedi'u hatgyfeirio i fi i'w hadolygu.

Mewn cymhariaeth, yn 2018 roedd cyfanswm o 166 o achosion a oedd yn destun dadl a atgyfeiriwyd i'w hadolygu gan y Monitor Annibynnol. Mae hyn yn dangos gostyngiad mewn atgyfeiriadau oherwydd eu bod yn destun dadl i'r IM sy'n parhau tuedd ostyngol a welwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

#### Gogledd Iwerddon

Ymestynnodd Deddf Cyfiawnder (Gogledd Iwerddon) 2015 rôl y Monitor Annibynnol i gynnwys adolygu anghydfodau datgelu a wnaed yng Ngogledd Iwerddon. Yn 2019, nid oedd unrhyw atgyfeiriadau i'r IM i'w hadolygu a oedd yn ymwneud â datgeliadau a wnaed gan Wasanaeth yr Heddlu Gogledd Iwerddon. Fel rhan o rôl yr IM, rwyf wedi adolygu sampl o achosion eleni o Ogledd Iwerddon lle mae'r heddlu wedi





ADRODDIAD BLYNYDDOL YR IM 2019

penderfynu ynddynt naill ai i ddatgelu neu i beidio â datgelu gwybodaeth. Roedd rhai pwyntiau dysgu a godwyd o'r ymarfer hon, ond dim pryderon sylweddol. Mae adborth manwl o'r ymarfer samplu hon wedi ei ddarparu i Wasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon.

#### Adolygiadau Barnwrol

Adolygiad Barnwrol yw'r ateb terfynol sydd ar gael i unrhyw un sy'n anghytuno â'r wybodaeth a ddatgelir gan yr heddlu ar eu Tystysgrif Cofnodion Troseddol Manylach. Nid oedd unrhyw Adolygiadau Barnwrol sy'n cynnwys y Monitor Annibynnol yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

#### Amseroldeb Trin Anghydfod Gan Ddatgelu IM

Mae'r Canllawiau Datgelu Statudol yn nodi y dylid gwneud penderfyniadau datgelu mewn modd amserol. Ers dechrau yn y swydd ym mis Hydref 2018, rwyf wedi talu sylw agos i'r cyflymder mae anghydfodau datgelu IM yn cael eu datrys ynddo. Rhennir y cyfrifoldeb hwn gan y DBS ANI, yr heddlu a fy swyddfa fy hun. Rwy'n cydnabod bod llawer o resymau pam efallai na fydd yn bosibl dilyn achos yn gyflym, ac ni fyddai byth yn briodol i ennill cyflymder ar draul ansawdd. Fodd bynnag, mae ymdrechu i ddatrys anghydfodau datgelu mewn modd amserol er lles pawb. Rwy'n falch o sylwi bod y mwyafrif llethol o achosion anghydfod datgelu IM yn 2019 wedi'u symud ymlaen yn gyflym.

ADRODDIAD BLYNYDDOL YR IM 2019

## Adroddiadau Blynyddol Blaenorol yr IM

Mae Tabl yn Atodiad B yn crynhoi'r holl argymhellion Blaenorol gan yr IM. Mae'r argymhellion sy'n weddill gan yr IM wedi'u crynhoi ar dudalen 4. Mae un argymhelliad newydd yn yr adroddiad hwn.

**Adroddiad Blynyddol 2014**

Fe wnaeth yr IM argymhelliad yn Adroddiad Blynyddol 2014: 'Ar gyfer cyflwyno amserlen ffurfiol (o dri mis) i ymgeisydd ddadlau ynghylch datgelu gwybodaeth ar Dystysgrif Cofnodion Troseddol Manylach'.

**Adroddiad Cynnydd**

Mae'r argymhelliad hwn yn dal i gael ei gefnogi gan yr holl randdeiliaid. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau newid ffurfiol i'r broses ddadlau megis yr un hwn byddai angen newid deddfwriaeth sylfaenol. O ganlyniad, ni ellir symud ymlaen â'r argymhelliad hwn tan y bydd cyfle addas yn codi i ddiwygio'r ddeddfwriaeth berthnasol trwy Ddeddf Seneddol.

Yn y cyfamser, fel yr adroddwyd mewn Adroddiadau Blynyddol blaenorol, fe wnaeth fy rhagflaenydd gyflwyno proses strwythuredig i ddelio â'r math hwn o achos. Dywedir bod y broses hon wedi lleihau'r galw ar unedau datgelu'r heddlu. Fodd bynnag, cydnabyddir o hyd y byddai datrysiad tymor hir, â chefnogaeth deddfwriaeth, yn fuddiol. Mae'r argymhelliad hwn yn parhau i fod yn gyfredol.

**Adroddiad Blynyddol 2015**

Fe wnaeth yr IM ail argymhelliad yn Adroddiad Blynyddol 2015 fel a ganlyn:

"Bod trafodaeth ffurfiol yn cael ei chynnal rhwng rhanddeiliaid o fewn y DBS, y Swyddfa Gartref a'r heddlu, er mwyn datblygu ymagwedd fwy cyson at ddatgeliadau trydydd parti trwy ganllawiau manylach ".

Fe wnaeth y Gweinidog Diogelu sylwadau yr argymhelliad hwn ar 24ain Medi 2019:

"Rwy'n parhau i gefnogi'r argymhelliad y dylai fod ymagwedd fwy cyson at ddatgeliadau trydydd parti trwy ganllawiau manylach. Gallaf eich sicrhau bod fy swyddogion polisi yn ystyried y mater hwn gydag arweinydd yr NPCC ar gyfer datgelu a chydweithwyr DBS ac y byddant yn eich diweddaru ar y trafodaethau hyn".

**Adroddiad Cynnydd**

Yn 2019 codwyd 18 anghydfod gyda'r Monitor Annibynnol yn ymwneud â datgeliadau trydydd parti. Mae hyn yn cynrychioli 13% o'r holl achosion adolygu IM ar gyfer y flwyddyn.

Cytunwyd ym mis Mawrth 2019 yn y Grŵp Portffolio Datgelu bod yr argymhelliad hwn yn dal i fod yn berthnasol. Ers yr amser hwnnw, mae Arweinydd Datgelu Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu a chynrychiolwyr y Swyddfa Gartref yn dweud eu bod wedi bod yn trafod pryderon cyfredol ac yn ceisio ymagwedd fwy cyson tuag at ddatgeliadau drydydd parti. Rwy'n falch o glywed am gynnydd cadarnhaol â'r argymhelliad hwn yn ystod y misoedd diwethaf, fodd bynnag, nid yw'r mater hwn wedi'i ddatrys yn llawn eto. Mae'r argymhelliad hwn yn parhau i fod yn gyfredol.

**Argymhelliad Newydd - Adolygu'r Canllawiau Statudol ar yr Asesiad o Hygrededd**

Wrth ystyried a ddylai gwybodaeth ar Dystysgrif Cofnodion Troseddol Manylach gael ei datgelu neu beidio, ystyriaeth allweddol yw a yw'r wybodaeth yn ddigon credadwy at ddibenion datgelu.

Yn dilyn fy ymarfer samplu eleni, ac yng ngoleuni achosion cyfreithiol a nodwyd yn ddiweddar, credaf y dylai'r Canllawiau ar gyfer Datgelu Statudol (Ail argraffiad - Awst 2015) gael eu diwygio mewn perthynas â'u canllawiau ar asesu 'hygrededd'.

**Argymhelliad**

'Dylai'r Swyddfa Gartref, yn gweithio gyda'r heddlu, DBS a rhanddeiliaid eraill gynnal adolygiad o'r Canllawiau ar gyfer Datgelu Statudol gan gyfeirio'n benodol at yr asesiad o hygrededd y wybodaeth'.

**Ymgysylltu**

Trwy gydol 2019 rwyf wedi parhau gyda fy ymweliadau ag unedau datgelu'r heddlu a swyddfeydd y DBS yn Lerpwl. Rwy'n parhau i ymgysylltu â chymaint o randdeiliaid â phosibl trwy bresenoldeb reolaidd yng nghyfarfodydd Datgelu Cenedlaethol a Rhanbarthol yr heddlu a Grŵp Portffolio Datgelu'r Heddlu.

Rwy'n cwrdd yn rheolaidd ag arweinwyr polisi a gweithredol o'r Swyddfa Gartref, DBS, ANI, NPCC ac unedau datgelu'r heddlu i nodi unrhyw faterion neu bryderon.

**Samplu achosion**

Rwyf wedi cynnal ymarfer samplu o anghydfodau o 2019 fel sy'n ofynnol o dan adran 119B Deddf yr Heddlu 1997. Mae'r sampl yn cynnwys achosion lle penderfynodd yr heddlu ddatgelu ac eraill lle penderfynon nhw beidio â datgelu gwybodaeth.

Fe wnes i samplu cyfanswm o 64 o achosion Datgelu Manylach eleni, wedi'u tynnu o ddeg heddlu gwahanol, gan gynnwys Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon. Rwyf wedi samplu achosion ar sail thematig lle mae'n bosibl, gan ganolbwyntio ar achosion sy'n ymwneud â: gyrru tacsis, galwedigaethau yn y cartref, datgeliadau trydydd parti a phobl sy'n dioddef salwch meddwl.

Ar ôl ystyried pob achos yn ofalus, darparwyd adborth unigol i'r heddluoedd dan sylw. O'r achosion a samplwyd yn 2019, rwyf wedi datblygu un argymhelliad newydd ar gyfer newid (a nodir uchod). Roedd rhai pwyntiau dysgu eraill wedi'u nodi trwy'r ymarfer hwn, ond ni chodwyd unrhyw faterion arwyddocaol.




Rwyf wedi darparu adborth manwl i'r heddluoedd perthnasol ac fe gafodd yr holl ddysgu generig o'r ymarfer samplu hwn ei ledaenu ar lefel genedlaethol trwy Grŵp Portffolio Datgelu'r Heddlu ac yn fwy lleol trwy'r Fforymau Datgelu Rhanbarthol.

### Ysgrifenyddiaeth y Monitor Annibynnol

Rwy'n ddiolchgar iawn am ymroddiad a gwaith caled parhaus Ysgrifenyddiaeth y Monitor Annibynnol sy'n gweinyddu llwyth achosion yr IM ac yn darparu cefnogaeth gyffredinol i swyddfa'r Monitor Annibynnol.

### Crynodeb a Chasgliad

Atgyfeiriwyd cyfanswm o 139 o achosion at y Monitor Annibynnol i'w hadolygu yn 2019. Darperir dadansoddiad llawn o sut yr oedd yr achosion atgyfeirio hynny gan yr IM wedi'u terfynu isod. Mae dau argymhelliad blaenorol sy'n weddill, ac un argymhelliad newydd a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol hwn.



**Julia Wortley,**
**Monitor Annibynnol**







### Pwerau y mae'r Monitor Annibynnol yn gweithredu oddi danynt

Mae'r Monitor Annibynnol yn cael ei benodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 119B Deddf yr Heddlu 1997 ac mae ganddo ddwy ddyletswydd statudol yn ymwneud â datgelu gwybodaeth ynghylch Tystysgrif Cofnodion Troseddol Manylach unigolyn. Yn unol ag adran 119B Deddf yr Heddlu 1997 mae'n rhaid i'r Monitor Annibynnol adolygu sampl o achosion lle mae gwybodaeth yr heddlu nad yw'n ymwneud ag euogfarnu wedi'i chynnwys, neu heb ei chynnwys, ar Dystysgrifau Cofnodion Troseddol Manylach o dan adran 113B (4) y Ddeddf. Pwrpas yr adolygiadau samplu hyn yw sicrhau cydymffurfiad ag Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR). Mae achosion samplu hefyd yn cynorthwyo'r IM wrth ystyried priodoldeb Canllawiau Statudol ac unrhyw argymhellion y dylid eu gwneud. Yn dilyn yr adolygiadau 'samplu ar hap' hyn, mae'r Monitor Annibynnol yn darparu adborth i'r heddluoedd perthnasol. O dan adran 117A Deddf 1997 mae gan y Monitor Annibynnol rôl arall i ystyried yr achosion hynny lle mae unigolyn yn credu bod y wybodaeth a ddatgelir gan yr heddlu o fewn Tystysgrif Cofnodion Troseddol Manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd naill ai ddim yn berthnasol i'r gweithlu y maent yn gwneud cais amdano, neu na ddylai gael ei datgelu.

Pan wneir cais am Dystysgrif fanylach, atgyfeirir manylion yr ymgeisydd i unrhyw heddlu a allai ddal gwybodaeth am yr ymgeisydd. Mae hyn yn galluogi'r llu i wirio eu cofnodion am unrhyw wybodaeth y maent yn credu'n rhesymol ei bod yn berthnasol i'r pwrpas rhagnodedig y ceisir y Dystysgrif ar ei gyfer ac i ystyried a ddylid ei datgelu. Yn dilyn penderfyniad gan yr heddlu i ddatgelu gwybodaeth os yw ymgeisydd yn dymuno dadlau ynghylch y datgeliad, gallant ofyn yn gyntaf am adolygiad gan yr heddlu perthnasol. Os yw'n dal yn anfodlon ar y canlyniad, yna gall yr ymgeisydd wneud cais i'r IM am adolygiad annibynnol o'u hachos.

### Modd gweithredu'r Ysgrifenyddiaeth a swyddogaeth y Monitor Annibynnol

Cyflwynwyd cyfrifoldeb y Monitor Annibynnol i adolygu atgyfeiriadau lle mae ymgeisydd yn dadlau ynghylch gwybodaeth a ddatgelir gan heddluoedd gan Ddeddf Diogelu Rhyddid 2012 (PoFA). Sefydlwyd ysgrifenyddiaeth fach i gefnogi'r Monitor Annibynnol i gyflawni'r swyddogaeth hon ym mis Hydref 2012 ac ar hyn o bryd mae ganddi ddau aelod o staff llawn amser.

Cyn mis Hydref 2012 a'r newidiadau a gyflwynwyd yn PoFA, roedd unrhyw un a oedd yn anfodlon ar gywirdeb yr wybodaeth a oedd yn ymddangos ar eu Tystysgrif fanylach dim ond yn gallu apelio i Brif Gwnstabl yr heddlu perthnasol. Os oedd yr ymgeisydd yn anfodlon ar ganlyniad hyn, neu geiriad y testun, yna eu hunig opsiwn oedd gofyn am Adolygiad Barnwrol o'r penderfyniad datgelu. Byddai gweithredu o'r fath yn gostus i'r ymgeisydd ac i'r DBS o ran amser ac adnoddau.

Mae rôl y Monitor Annibynnol bellach yn gweithredu fel haen ychwanegol o adolygu cyn y gall person droi at Adolygiad Barnwrol.

Ers mis Medi 2012 a than ddiwedd mis Rhagfyr 2019, mae'r Monitor Annibynnol wedi derbyn cyfanswm o 1,841 o atgyfeiriadau. Mae papurau achos yn cynnwys y Dystysgrif ddatgelu a ddarperir gan y DBS, ynghyd ag unrhyw sylwadau ysgrifenedig a dogfennaeth gefnogol a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd.

Unwaith y derbynnir achos, bydd Ysgrifenyddiaeth yr IM yn gofyn i'r heddlu am wybodaeth yn ymwneud â'r achos a'r ymgeisydd ar gyfer unrhyw sylwadau ychwanegol y maent am eu gwneud. Ar ôl derbyn unrhyw sylwadau pellach, cyflwynir yr achos i'r IM i'w adolygu.

Wrth adolygu anghydfod, mae'r IM yn dilyn y Canllawiau Statudol ac yn ystyried:

1. A yw'r wybodaeth a ddarperir yn gywir







2. A yw'r wybodaeth a ddarperir yn berthnasol i'r pwrpas rhagnodedig y cafwyd y dystysgrif (ers 2012 mae hyn yn gyffredinol ar gyfer gwaith o fewn y 'gweithluoedd plant neu oedolion' yn hytrach nag ar gyfer rôl benodol); ac

3. A ddylid datgelu'r wybodaeth, gan gynnwys;

a) Beth yw nod dilys y datgeliad

b) A yw'r datgeliad yn angenrheidiol i gyflawni'r nod cyfreithlon hwnnw; ac

c) A yw'r datgeliad yn gymesur, gan daro cydbwysedd teg rhwng hawliau'r ymgeisydd a hawliau'r rheini y mae'r datgeliad yn ceisio eu hamddiffyn.

Mae'r holl feini prawf yn cael eu hystyried yn gyfartal, nid oes pwysoli. Unwaith y bydd yr IM wedi gwneud penderfyniad, bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn ysgrifennu at yr ymgeisydd, y DBS a Phrif Swyddog perthnasol yr heddlu yn eu hysbysu o benderfyniad y Monitor Annibynnol.

### Eglurhad

Mae rôl y Monitor Annibynnol yn wahanol i rôl yr Adolygydd Cwynion Annibynnol (ICR) ar gyfer y DBS. Mae'r ICR yn adolygu cwynion am y DBS ac yn cynnig cyngor adeiladol am y ffordd y mae'r DBS yn delio â chwsmeriaid a sut mae'r DBS yn delio â chwynion.

Mewn cyferbyniad, fel penodai statudol, rôl yr IM yw ystyried atgyfeiriadau gan ymgeiswyr sy'n dadlau am gynnwys gwybodaeth nad yw'n ymwneud ag euogfarnu yn eu Tystysgrifau datgelu manylach a gyhoeddir gan y DBS. Mae angen Tystysgrifau o'r fath ar gyfer y rhai sy'n dymuno gweithio gyda phlant ac oedolion sy'n agored i niwed ac mewn rhai swyddi penodol eraill megis gyrru tacsis.

# Atgyfeiriadau Achos y Monitor Annibynnol: Crynodeb 2019

Mae'r siart isod yn dangos nifer yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd gan y Monitor Annibynnol yn 2019 a sut yr oeddent wedi'u datrys wedyn.

Dangosir y ffigurau hyn o'u cymharu â blynyddoedd blaenorol. Mae 'Cynnal' yn cyfeirio at achosion lle bu datgeliad yr heddlu â chefnogaeth yr IM yn ei gyfanrwydd.

Fe fu gostyngiad yng nghyfanswm yr atgyfeiriadau a wnaed i'r IM yn 2019. Gall y gostyngiad hwn mewn anghydfodau fod yn arwydd o ansawdd a chysondeb uwch y broses o wneud penderfyniadau gan heddluoedd. Fodd bynnag, mae cymhlethdod yr achosion a atgyfeirir yn parhau i godi. Mae polisi blaenorol yr IM o beidio ag adolygu achosion lle codir yr anghydfod ar ôl amser maith sylweddol ers i'r datgeliad gael ei wneud a lle nad yw'r pwrpas rhagnodedig yn bodoli mwyach, neu mae'n rhesymol credu bod hyn yn wir, yn aros yn ei le.

**Siart 1**

Cynnal
Canlyniad Arall




Mae'r siart dilynol yn torri lawr y categoriau 'Canlyniad Arall' uchod, I ddangos fel a dderfynnodd.

**Siart 2**

Tynnwyd yn ôl gan yr Ymgeisydd
Tynnwyd yn ôl gan yr Heddlu
Gwrthod Adolygu
Dileu'n Rhannol
Wedi'i Ddiwygio
Dileu Popeth
Achos Wedi Mynd i Oed




Mae rhai achosion lle gallai'r wybodaeth a ddatgelir gael ei hegluro trwy ddiwygio. Mewn achosion o'r fath, mae'r IM yn negodi gyda'r Prif Swyddog i gytuno ar ffurf ddiwygiedig o eiriau. Mae'r achosion hyn wedi'u categoreiddio uchod fel rhai 'diwygiedig'. Mae'r IM wedi gwrthod adolygu cyfanswm o 6 achos o anghydfod eleni allan o gyfanswm o 139 o atgyfeiriadau. Mewn un achos, roedd cais wedi'i wneud trwy gamgymeriad am Dystysgrif yn ymwneud â galwedigaeth gartref a chynghorwyd yr ymgeisydd i ail-ymgeisio am Dystysgrif a oedd yn cyfateb i'r pwrpas rhagnodedig. Yn y pump achos arall, tynnwyd yr anghydfod yn ôl gan yr ymgeisydd; mewn un achos oherwydd eu bod wedi cael Tystysgrif 'lân' newydd ac yn y pedwar achos arall oherwydd bod yr ymgeisydd yn fodlon ar ddatgeliad diwygiedig fel y darparwyd gan yr heddlu.

## Gweithluoedd

Mae'r siart a ganlyn yn rhoi cymhariaeth o'r gweithluoedd perthnasol y mae ymgeiswyr wedi gwneud cais amdanynt. Mae'r siart yn dangos bod cyfran yr achosion ym mhob gweithlu yn aros yn gyson â blynyddoedd blaenorol. Fe ddaw'r mwyafrif o anghydfodau o ymgeiswyr sydd wedi gwneud cais am y gweithluoedd Plant ac Oedolion. Mae'n dal i fod yn wir, yn yr achosion hyn, y gall mwy o wybodaeth gael ei hystyried gan yr heddlu, oherwydd cludadwyedd y dystysgrif.

Plant
Ill dau
Oedolion
Eraill

Ni chofnodwyd unrhyw anghydfodau yn y categori 'Gweithlu arall' yn 2012 neu 2013 fel Gyrwyr Tacsi yn cael eu hystyried yn rhan o weithlu Plant yn ystod y blynyddoedd hynny.

**Siart 3**





ADRODDIAD BLYNYDDOL YR IM 2019

# Atodiad A

Y Swyddfa Gartref

Victoria Atkins AS
Y Gweinidog Diogelu
2 Marsham Street
Llundain SW 1P 4DF

Julia Wortley
Monitor Annibynnol ar gyfer y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
d/o Uned Nawdd y Swyddfa Gartref
Peel 3ydd llawr
y Swyddfa Gartref
2 Marsham Street
Llundain SW1P 4DF

22 Gorffennaf 2020

Annwyl Julia,

Diolch am eich Adroddiad Blynyddol 2019 a gyhoeddir ar GOV.UK yn fuan. Rhoddodd eich adroddiad gipolwg defnyddiol ar ddatgelu gwybodaeth yr heddlu am dystysgrifau cofnodion troseddol manylach (ECRCs) a'ch gwaith ag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys unedau datgelu rhanbarthol a'r Gwasanaeth Datgelu a'r Gwahardd, i ddatblygu ymagwedd gyson.

Rwyf yn sylwi eich bod wedi gwneud un argymhelliad newydd yn yr adroddiad hwn a bod dau yn weddill o flynyddoedd blaenorol. Ar ôl ystyried y rhain, rwyf wedi nodi ein hymateb isod.

**Adolygu'r Canllawiau Statudol ar yr Asesiad o Hygrededd**
Rwyf wedi nodi eich argymhelliad y dylai'r Swyddfa Gartref, gan weithio gyda'r heddlu, y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a rhanddeiliaid eraill, gynnal adolygiad o'r Canllawiau Datgelu Statudol. Mae fy swyddogion polisi yn ystyried yr argymhelliad hwn a byddaf yn sicrhau eu bod yn eich diweddaru â'u hymateb o fewn mis ar ôl cyhoeddi'ch adroddiad.

**Terfyn Amser ar gyfer Dadlau Datgeliadau**
Fel y byddwch yn ymwybodol, bydd angen newid y ddeddfwriaeth sylfaenol ar gyfer yr argymhelliad i gyflwyno terfyn amser i ddadlau ynghylch datgelu. Bydd yr argymhelliad yn cael ei ystyried os bydd cyfle addas yn codi i ddiwygio'r ddeddfwriaeth berthnasol, fodd bynnag, rwyf wedi nodi yr adroddir bod y broses a roddwyd ar waith fel datrysiad dros dro gan y Monitor Annibynnol blaenorol yn effeithiol.

**Datgeliadau Trydydd Parti**
Rwy'n parhau i gefnogi'r argymhelliad y dylid cael ymagwedd fwy cyson at ddatgeliadau trydydd parti trwy ganllawiau manylach. Fe ddaeth trafodaethau rhwng fy swyddogion polisi ac arweinydd datgelu'r NPCC i ben ym mis Chwefror, gyda chadarnhad o sefyllfa SG yn cael ei ddarparu i'r NPCC gan Gyfarwyddwr Diogelu'r Cyhoedd. Hyderaf, unwaith y byddwch yn clywed yn ôl gan yr Arweinydd NPCC, y bydd yr argymhelliad hwn yn cael ei gwblhau.

Diolch i chi am eich gwaith pwysig ers ymgymryd â'r rôl ym mis Hydref 2018.

Victoria Atkins AS
Y Gweinidog Diogelu





# Atodiad B: Tabl Argymhellion Blaenorol

| Argymhelliad | Blwyddyn Gwneud | Statws | Sefyllfa Bresennol |
|---|---|---|---|
| Iechyd Meddwl | 2013 | Derbyniwyd | **Wedi'i gwblhau** Roedd y canllawiau statudol diwygiedig ar gyfer achosion iechyd meddwl yn a gyhoeddwyd ym mis Awst 2015. |
| Galwedigaethau Cartref | 2013 | Derbyniwyd yn Rhannol | **Wedi'i gwblhau** Diwygiodd DBS yr ymgeisydd a chanllawiau 'RB' yn 2015 a'u hyrwyddo yn DBS News. |
| Gweithlu v Swydd y Cymhwyswyd amdani | 2013 | Heb ei Dderbyn | Codwyd y mater eto yn Adroddiad Blynyddol 2014 gydag ymateb blaenorol wedi'i ailadrodd. |
| Cyrff Cofrestredig | 2013 | Derbyniwyd | **Wedi'i gwblhau** Gweithiodd DBS gyda NACRO a CIPD i ddatblygu canllawiau i gyflogwyr ar sut i asesu a thrafod gwybodaeth ar dystysgrif datgelu. |
| Cyrff Cofrestredig | 2013 | Derbyniwyd | **Wedi'i gwblhau** Gweithiodd DBS gyda NACRO a CIPD i ddatblygu canllawiau i gyflogwyr ar sut i asesu a thrafod gwybodaeth ar dystysgrif datgelu. |
| Terfyn Amser Statudol ar gyfer Anghydfodau | 2014 | Derbyniwyd ac yn aros am ddatblygiad pellach | **Parhaus** Yn ei gwneud yn ofynnol i ddeddfwriaeth sylfaenol symud ymlaen. |
| Proses Ffurfiol i Adolygu Argymhellion | 2014 | Derbyniwyd | **Parhaus** Strwythur cyfarfod yn lle. |
| Unedau Datgelu'r Heddlu i gael mynediad at Drawsgrifiadau Llys | 2015 | Derbyniwyd | **Wedi'i gwblhau** Polisi ac arweiniad ei ailgyhoeddi i ddarparwyr trawsgrifiadau llys. |
| Datblygu canllawiau ar Ddatgeliadau Trydydd Parti | 2015 | Derbyniwyd ac yn aros am ddatblygiad pellach. | **Parhaus** Yn aros i gael ei ystyried ymhellach gan arweinydd Datgelu NPCC a'r Swyddfa Gartref. |